Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 No. 1628

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Deuant i rym fel a ganlyn—

(a) daw'r Rhan hon a Rhan 3 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;

(b) daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.